# CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

**DYDD** Mawrth, 11 Mehefin 2019

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** E. Dole (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
B Hale, Cydgysylltydd Datblygu Economaidd
J. Hancock, Swyddog Datblygu Mentrau Cymdeithasol Blaenllaw
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Gyfarfod Adfywio, Neuadd y Sir, Caerfyddin: 2.30 yp - 2.45 yp**

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**
Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 14 MAI 2019**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 14 Mai, 2019 yn gofnod cywir.**

**3. CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: CRONFA'R DEGWM**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa'r Degwm yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad.**

| **Cronfa'r Degwm** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod y Cais** | **Ymgeisydd** | **Dyfarniad** |
| WCF-19-11 | Eglwys Annibynwyr Bethesda, Y Tymbl | £3,000.00 |

**4. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**5. CRONFA CYCHWYN BUSNES/TWF BUSNES SIR GAERFYRDDIN**

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith**

**fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o niweidio'r ymgeiswyr ar hyn o bryd.**

Gan gyfeirio at gofnod 2 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2018, rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i geisiadau am gymorth gan Gronfa Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin a Chronfa Tyfu Busnes Sir Gaerfyrddin. Blaenoriaeth y ddwy gronfa oedd cefnogi'r gwaith o greu swyddi a busnesau newydd yn y Sir.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin a Chronfa Tyfu Busnes Sir Gaerfyrddin, yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol a'r rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| **Cronfa Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod y Cais** | **Ymgeisydd** | **Dyfarniad** |
| SUF66 | Wills Fresh Food & Coffee | £10,000.00 |
| SUF65 | Pentre Plumbing | £2,899.14* |
| **Cronfa Tyfu Busnes Sir Gaerfyrddin** | | |
| **Cyfeirnod y Cais** | **Ymgeisydd** | **Dyfarniad** |
| GF29 | Qualitek Engineering | £10,000.00** |
| GF72 | Agri Advisors | £9,119.46 |
| GF89 | Dyfed Steels Ltd. | £10,000.00 |
| GF98 | Padda Care Ltd. | £10,000.00 |

[*Cyfanswm cost diwygiedig y prosiect wedi'i nodi.]
[**Yn lle’r £10k a roddwyd ar 19/12/18 yn dilyn newid i’r cais gwreiddiol.]

**AELOD O’R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**